**Dydd Mercher – Dydd yr Eneinio**

**Darllen Marc 14:3–9; Luc 7:36–50**

Mae'n amlwg i Iesu benderfynu aros ym Methania ar y Dydd Mercher yn hytrach na cherdded unwaith yn rhagor i Jerwsalem. Onid wrth aros ym Methania y cafodd Iesu ei anrhydeddu a'i eneinio? Er y gwahaniaethau sydd yn yr adroddiadau y mae un peth yn sicr: fe gafodd gysur yn ei unigrwydd a'i amgylchynu gyda chariad i wynebu ei Groes.

**Myfyrdod**

Ym Methania, edrychodd Mair yn ôl at fedd Lasarus tra bod Iesu'n edrych ymlaen at ei fedd ei hun. O'i flaen ef, safai Jerwsalem a Gethsemane, ffordd gofidiau a'r Groes a'r bedd, brad, unigrwydd, trallod a marwolaeth. Roedd y tywyllwch yn cau amdano. Daeth Mair ato a chyflawni'r weithred hon, gan roi iddo gymorth i wynebu ei groes. Amhosibl yw cymharu'r hyn a wnaeth Iesu dros ddynion â'r hyn a wnaeth Mair dros Iesu. Gweithred fach o'i heiddo; dibwys i rai ond cyffyrddodd ag ef ar awr ei angen. Ni ddaeth neb arall ato, neb o'r siaradwyr huawdl, neb ond Mair. O am gael dysgu ganddi! Tramgwydd oedd y cyfan i'r Deuddeg. Gwastraff! Rhoi yn afradlon oedd Mair er mwyn y Meistr. Roedd ef yn gwbl ymwybodol o'r ffaith bod y tlodion yno bob amser yn disgwyl cymorth.

'A ellwch fesur cariad?' yw awgrym Iesu yma, ar wahân i'r ffaith ei fod ef yn rhoi popeth ac yn cymryd popeth, ac yn wir yn hawlio popeth. Mair yn unig a ddaeth â goleuni i Grist yr wythnos honno, i oleuo'r ffordd o'i flaen. Daeth Mair at Oleuni'r Byd gan adlewyrchu'r goleuni yn ei gweithred ac yn ei hymagwedd at ei Gwaredwr... Byddai yn ei ddilyn at droed ei groes ac at ddrws ei fedd; ac ar y trydydd dydd byddai'n cael cwrdd ag ef yn yr ardd a'i danfon i ddweud wrth y lleill. Wrth iddi eneinio Iesu, dengys Mair beth yw ystyr perthyn i'r Gwaredwr, sef bod yn blentyn y Goleuni.

***Ivor Thomas Rees***